



Proffil Ardal Weinidogaeth **Bro Deiniol**



**Esgobaeth
 Bangor**
 The Diocese
 of Bangor



Cyflwyniad

Mae Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant, Bangor, ymhlith y safleoedd hynaf o addoli Cristnogol parhaus yn y Deyrnas Unedig. Heddiw, mae'n parhau i fod yn ganolfan fywiog o addoli a thystiolaeth, wedi'i gwreiddio yng nghanol y ddinas y mae wedi helpu i'w siapio ers pymtheg canrif.

Sefydlwyd y 'clas' gwreiddiol gan Deiniol Sant yn y flwyddyn 525, ac roedd ygymuned wedi'i amgylchynu gan ffens gyll - 'bangor' yn Gymraeg. Dyma sut cafodd y ddinas ei henwi. Y llynedd, fe wnaethom nodi 1,500 mlynedd ers i Deiniol ymgartrefu yma am y tro cyntaf a dathlu'r etifeddiaeth gyfoethog o ffydd sy'n parhau i'n hysbrydoli a'n herio. Yr eglwys gadeiriol yw sedd Esgob Bangor, ac felly mae'r eglwys gadeiriol yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau esgobaethol fel mam eglwys yr esgobaeth.

Yn dilyn dau adolygiad diogelu a gomisiynwyd mewn ymateb i heriau diweddar, cynhaliwyd ymweliad esgobol, a dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i weithredu eu hargymhellion. Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gwblhau i raddau helaeth; fodd bynnag, bydd angen i'r Deon newydd wreiddio a pharhau i ddatblygu diwylliant cadarnhaol a thryloyw lle mae holl aelodau'r gynulleidfaoedd yn ogystal â chymuned ehangach Bangor yn cael eu derbyn a'u croesawu i fywyd yr eglwys gadeiriol.

BBydd y Deon newydd hefyd yn gallu datblygu ymhellach y potensial ar gyfer twf ysbrydol, gan sicrhau fod yr eglwys gadeiriol hefyd yn ganolfan fywiog i'r celfyddydau yn ogystal â sefydliad sydd ag ymrwymiad dwfn i gyfiawnder cymdeithasol. Mae cynaliadwyedd ariannol yn her ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ymgysylltu ymhellach â'r ddinas.

Gyda'n hunaniaeth a'n darpariaeth cwbl ddwyieithog, mae rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol. Mae'r Ardal Weinidogaeth hefyd yn eistedd ar hyd Llwybr Pererinion Gogledd Cymru - o Abaty Basingwerk i Ynys Enlli - ac mae potensial cyffrous i ddyfnhau ein gweinidogaeth i bererinion ac ymwelwyr sy'n teithio drwy'r ardal sanctaidd hon.

Bydd y Deon yn aelod allweddol o Dîm Staff yr Esgob ac yn gydweithiwr gwerthfawr i'r Esgob ac uwch arweinwyr eraill.

Mae rôl Deon yn cwmpasu rôl Arweinydd Ardal Weinidogaeth, ac ar hyn o bryd yn gwasanaethu eglwys arall, Eglwys y Groes ar ystâd Maesgeirchen. Mae eglwys gaeedig, ym Mhenrhosgarnedd, hefyd o fewn yr AW ac efallai y byddai'n bosibl datblygu'r eglwys fel gofod addoli eto yn y dyfodol.

Am y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bod yn bersonol yn arwain yr eglwys gadeiriol fel Deon ac wedi caru fy amser yma.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Deon newydd a byddaf yn eu cefnogi ar y cyfnod allweddol hwn ym mywyd yr Eglwys Gadeiriol.

Manon Ceridwen James





Ardal Weinidogaeth

Eglwys Gadeiriol Sant Deiniol Sant

Mae Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant nid yn unig yn adeilad hanesyddol - mae'n dŷ gweddi byw yng nghanol y ddinas. Gyda stori sy'n cynnwys canrifoedd o adeiladu, dinistr ac adnewyddu, mae'n parhau i gyhoeddi presenoldeb Duw i bob cenhedlaeth. Gwelodd yr adeilad presennol ddau gyfnod o ailadeiladu helaeth yn yr 16eg a'r 19eg ganrif, a oedd yn cynnwys y tŵr yn y pen gorllewinol a gysegrwyd i'r Esgob Skevington ym 1532, er iddo gael ei gwblhau'n ddiweddarach ar ôl ei farwolaeth ym 1533. Mae'r adeilad presennol o'r tu mewn yn dyddio o waith adfer Syr George Gilbert Scott rhwng 1870-1880, a oedd yn cynnwys gwaith helaeth i'r gangell a'r tŵr canolog, gosod claddgell bren hardd y Gangell a cherfiadau pren yn stondinau côr angylion, sy'n cynnwys creaduriaid chwedlonol o bob math. Ar y llawr yn yr eil ddeheuol mae carreg i goffáu dau arweinydd Gwynedd: Gruff ap Cynan (m. 1137) a'i fab Owain, Tywysog Gwynedd (m. 1170). Mae'r beddrod bwaog yng Nghapel yr Arglwyddes wedi'i nodi fel beddrod Owain.

Mae eitemau a nodweddion nodedig eraill sydd wedi'u lleoli yn yr Eglwys Gadeiriol yn cynnwys teils ar lawr y gangell a Chapel yr Arglwyddes sy'n gopïau o'r teils o'r 14eg ganrif a ddarganfuwyd yn ystod adfer Gilbert Scott. Mae rhai o'r teils gwreiddiol i'w gweld ar lawr y siop. Mae'r Garreg Efa, carreg feddrod sy'n dyddio o'r 14eg ganrif a ddarganfuwyd yn ystod yr adfer, yn cael ei harddangos yn siop yr Eglwys Gadeiriol. Mae'r ddelw yn darlunio dynes anhysbys.

Mae dau baentiad modern trawiadol gan yr artist o Ynys Môn, John Gregory, yn hongian yn yr eil ddeheuol. Mae'r rhain yn ailweithiau o baentiadau gan Caravaggio. Mae Crist Mostyn, delwedd o'r Crist Pendanol sy'n cynrychioli'r eiliadau olaf cyn y croeshoeliad i'w weld ym mhen gorllewinol y corff ac mae'n dyddio o ddiwedd y 15fed ganrif neu ddechrau'r 16eg ganrif. Mae enghreifftiau o'r math hwn yn brin iawn yng Nghymru. Mae'r ffigwr bron maint llawn yn gwisgo coron o ddrain ac yn mynegi dioddefaint a blinder eithafol.

Yn ogystal â'r corff, y gangell a'r presbyteri, mae gan yr Eglwys Gadeiriol Gapel yr Arglwyddes, ardal siop, toiled a chegin, ac ystafell gôr gyda festri. Mae lle storio cyfyngedig iawn yn y Gadeirlan ac mae'r corff, y capel a'r festri yn cael eu defnyddio yn helaeth ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau cymdeithasol.



Mae gweinidogaeth teuluol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae hyn bellach yn cael ei arwain gan y Ficer Cyswllt, y Parchg Andy Broadbent, ac mae ei weinidogaeth yn canolbwyntio'n arbennig ar deuluoedd, gan adeiladu rhaglen o addoli a gweithgareddau i bawb.

Mae corff yr Eglwys Gadeiriol yn ofod hyblyg iawn lle rydym ar hyn o bryd yn cynnal cyngherddau a datganiadau, Camau Bach (grŵp babanod a phlant bach), ciniawau "dod a rhannu", ffeiriau haf a "Mannau Cynnes" ar gyfer aelodau unig neu ddigartref o'r gymuned.

Bydd angen gwaith a gwariant cyfalaf helaeth ar yr Eglwys Gadeiriol yn y tymor byr ac yn y tymor hir. Mae angen system wresogi newydd, ac mae'r Cabidwl eisoes wedi dechrau archwilio opsiynau posibl ar gyfer system newydd i wasanaethu'r Eglwys Gadeiriol yn y dyfodol, ac mae arian wedi'i neilltuo i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Eglwys y Groes, Maesgeirchen



Mae Eglwys y Groes yn eglwys o'r 1950au a adeiladwyd mewn safle amlwg yng nghanol un o Ystadau Cyngor mwyaf Cymru, Maesgeirchen.

Mae'r eglwys ei hun yn ymfalchïo o gael neuadd yn rhan greiddiol ohoni, cegin sydd newydd ei gosod, ystafelloedd cyfarfod, storfa a thoiledau. Mae'n chwarae rhan hanfodol yn y gymuned glos hon, gan gynnig man addoli, cefnogaeth a chymorth i drigolion lleol. Mae'r neuadd hefyd yn cael ei defnyddio'n gyson gan grwpiau lleol ar gyfer dosbarthiadau, clybiau a phartïon.

Mae'r gynulleidfa fach ond ffyddlon wedi ymrwymo'n ddwfn i'w ffydd ac i wasanaethu eu cymdogaeth ac yn edrych ymlaen at feithrin cysylltiadau cryfach fyth â thrigolion lleol.

Eglwys Sant Pedr, Penrhosgarnedd



Nid yw Eglwys Sant Pedr wedi ailagor ers iddi gau yn ystod y pandemig yn 2020. Fodd bynnag, gyda rhywfaint o waith datblygu ar yr adeilad, mae potensial gwirioneddol i'w hailagor neu i ail-ddychmygu'r gofod at ddefnydd newydd.

Mae'r ardal yn gartref i lawer o weithwyr ieuchyd, wedi'u lleoli yn agos i'r ysbyty lleol, Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Gall hyn wneud yr ardal yn heriol gan fod y boblogaeth yn symudol iawn, gyda phobl yn dod am ychydig flynyddoedd i hyfforddi yn yr ysbyty, cyn symud ymlaen.

Fodd bynnag, mae poblogaeth fwy sefydlog hefyd, ac mae adeilad yr eglwys wedi'i lleoli ar draws y ffordd i Ysgol y Faenol, un o'r ddwy ysgol eglwys, sydd wedi cael ei adnewyddu'n ddiweddar gan gynnig neuadd gymunedol newydd ar y safle.

Y Ddinas

Mae dinas Bangor ar arfordir gogleddol Cymru, ac yn lle sy'n llawn hanes, diwylliant, ac sydd wedi'i amgylchynu gan harddwch naturiol.

Mae Bangor yn ddinas dysg. Gyda Phrif Adeilad y Celfyddydau yn edrych i lawr ar y ddinas a'r Eglwys Gadeiriol, mae Prifysgol Bangor yn naturiol yn rhan annatod o fywyd y ddinas, ac yn cyfrannu at ei natur amlddiwylliannol a chynhwysol. Gyda dros 11,000 o fyfyrwyr yn ymgartrefu yma o leiaf am gyfnod, mae cyfle i weithio gyda'r Caplan Prifysgol, y Parchedig Neville Naidoo, i sicrhau bod yr Eglwys Gadeiriol nid yn unig yn gartref iddynt, ond yn cynnig cysur a noddfa i'r myfyrwyr hynny sydd ei angen.

Mae Bangor yn ddinas Gymraeg. Mae Eglwys Gadeiriol Bangor yng nghanol yr ardal a'r esgobaeth lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf a mwyaf byw; mae 66.4% o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg, gyda bron i hanner poblogaeth Bangor yn siaradwyr Cymraeg. Mae'n iaith fyw, yn iaith gyntaf, yn iaith bob dydd i gymaint o bobl - ac mae cyfle i ymgolli yn y diwylliant Cymreig, gyda chyngherddau, gigs a nosweithiau cymdeithasol o bob math yn cael eu cynnal yn yr ardal. Mae gwasanaethau a chymuned yr Eglwys Gadeiriol a Bro Deiniol yn adlewyrchu pwysigrwydd y Gymraeg i'n plwyfolion ac i'r gymuned.

Mae Bangor yn eistedd rhwng y môr a'r mynyddoedd. Gyda Afon Menai i'r gogledd, a mynyddoedd Eryri i'r de, mae golygfeydd godidog Bangor yn ein hatgoffa bob dydd o wyrth y greadigaeth.



Bangor sydd â'r Stryd Fawr hiraf yng Nghymru. Er bod Stryd Fawr Bangor, fel llawer o rai eraill, yn wynebu heriau difrifol, mae balchder a dycnwch i'w gweld. Mae caffis a bwytai yn cynnig bwyd blasus ac amrywiol; mae Storiell yn amgueddfa ac oriel leol sy'n cynnal sgysiau a darlithoedd difyr. Mae siopau mawr adnabyddus, fel Marks & Spencer a Boots yn parhau i fod yn bresennol, ac mae'r farchnad ddydd Gwener yn ffynnu. Uwchben y stryd fawr mae tafarndai a bwrlwm Bangor Uchaf, sy'n ganolbwynt bywyd cymdeithasol myfyrwyr, a lle gallwch ddod o hyd i dafarn chwedlonol y Glôb gyda'i chymuned Gymreig unigryw sy'n cynnwys nosweithiau gwerin a 'meic agored'. Er bod y Stryd Fawr yn wynebu heriau, mae'r siopau y tu allan i'r dref ar Ffordd Caernarfon yn cynnig pob math o siopa – mae Next, Tesco, Aldi, B&Q, a TK Maxx ymhlith y siopau a geir yma.



Mae Bangor yn ddinas sydd â chysylltiad trafnidiaeth cyhoeddus hwyus. Mae gan Fangor orsaf reilffordd a rhwydwaith o orsafoedd bysiau sy'n rhoi cysylltiadau da â threfi a dinasoedd ymhellach i ffwrdd. Dim ond 30 munud yw Bangor o Borthladd Caergybi gyda llongau rheolaidd i Ddilyn.

Y Tîm



Canon Tracy Jones



**Y Parchg Andy
Broadbent**



**Y Parchg Neville Naidoo
Caplan y Brifysgol**

Wrth wraidd Bro Deiniol mae tîm ymroddedig, aml-dalentog sy'n ymrwymedig i weddio, gofal bugeiliol, creadigrwydd a chydweithio. Bydd y Deon newydd yn ymuno â grŵp o gydweithwyr sy'n angerddol am y lle hwn a'i bobl, ac sy'n dod ag amrywiaeth gyfoethog o ddoniau a phrofiad i'w gweinidogaeth a rennir.

Maent yn cynnwys:

- Y Canon Preswyl (Canon ar gyfer Bywyd y Gynulleidfa) – Y Parchg Ganon Tracy Jones sydd â'r prif gyfrifoldeb am les bugeiliol ac ysbrydol y cynulleidfaoedd yr ydym yn eu gwasanaethu.
- Ficer Cyswllt gyda'r prif gyfrifol am Eglwys y Groes, y Parchedig Andy Broadbent.
- Y Pennaeth Cerddoriaeth Dros Dro
- Succentor (Rhan-amser)
- Clercod Lleyg ac Ysgolheigion Corawl (Rhan-amser)
- Swyddog Gweithrediadau (Rhan-amser)
- Sacristan (Rhan-amser)
- Caplan y Brifysgol (Llawn-amser)
- Offeiriaid wedi ymddeol
- Darllenydd Lleyg Trwyddedig
- 3 Caplaniaid Anna

Llywodraethu a Strategaeth

Mae Eglwys Gadeiriol ac eglwysi Bro Deiniol yn cael eu llywodraethu gan Gabidwl Yr Eglwys Gadeiriol, sef y corff o ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys 17 aelod (gan gynnwys y Deon), 13 o ganoniaid clerigol a 4 canon lleyg. O ganlyniad i'r feirniadaeth yn yr adolygiadau esgobol, mae'r llywodraethu wedi'i ailwampio, ac mae'r Deon a'r Cabidwl yn ystyried cyfansoddiad newydd gyda'r posibilrwydd o ddod yn CiO. Mae hyn wedi'i dderbyn gan y Cabidwl ac mae angen cwblhau'r gwaith.

Ysgolion yn yr Ardal Weinidogaeth

O fewn yr Ardal Weinidogaeth mae chwe ysgol gynradd, dwy ohonynt yn ysgolion Eglwys. Mae yna hefyd ddwy ysgol uwchradd, a choleg addysg bellach.

Addoliad a Cherddoriaeth

Mae'r clerigwyr yn cyfarfod (bron) bob dydd ar gyfer gweddi, am 8.30am a 5.15pm. Mae côr y Gadeirlan yn canu ar gyfer y ddau brif Gymun corawl fore Sul ac ar gyfer Gosber ar ddydd Sul a dydd Mawrth i ddydd Iau. Mae'r côr yn fach ond ymroddedig, ac yn canu mewn nifer o wasanaethau trwy gydol yr wythnos. Mae'r Eglwys Gadeiriol hefyd yn cynnal "Doniau", cyfres o ddatganiadau wythnosol amser cinio a gynhelir mewn partneriaeth â Storiell, amgueddfa a chanolfan gelfyddydau Bangor, sy'n dod â cherddoriaeth, barddoniaeth a'r gair llafar i'r gymuned ehangach.



Gwasanaethau Wythnosol

Diwrnod	Gwasanaeth
Dydd Sul	08:15 Cymun (BCP 1984) 09:15 Cymun Corawl (Cymraeg) 11:00 Cymun Corawl (Saesneg) 11:00 ECymun yn Eglwys y Groes 15:30 Gosber
Dydd Llun	08:30 Boreol Weddi 17:15 Gweddî'r Nos
Dydd Mawrth	08:30 Boreol Weddi 17:15 Gosber
Dydd Mercher	08:30 Boreol Weddi 12:30 Cymun 17:15 Gosber
Dydd Iau	08:30 Boreol Weddi 17:15 Gosber
Dydd Gwener	Eglwys Gadeiriol ar agor 10:00-15:00
Dydd Sadwrn	Eglwys Gadeiriol ar agor 10:00-15:00

Gweithgareddau Eglwys y Groes

Eglwys y Groes has a varied programme of worship, fellowship and community engagement. Worship takes place every Sunday, with Morning Prayer on Fridays and a weekly Bible study. Weekly hospitality and outreach activities have a particular focus on families, while a contemporary singing service is held every other week. The church also holds a monthly Messy Church, providing an accessible and welcoming opportunity for children and families to explore faith together.

Y Deondy

Mae'r Deondy wedi'i leoli yn agos at ben gogledd-orllewinol yr Eglwys Gadeiriol, ac mae'n cynnig preifatrwydd ac agosrwydd, gan ei wneud yn ganolfan ymarferol a bugeiliol ar gyfer gweinidogaeth.

Mae gwaith wedi'i wneud ar y tŷ yn ddiweddar, gan gynnwys gosod lloriau a ffenestri newydd a'i ailaddurno drwyddo draw. Mae ganddo ardd fawr o flaen y tŷ ac ardal balmantog gaeedig. Ar y llawr gwaelod ceir ystafell fyw fawr, swyddfa, ystafell fwyta a chegin. I fyny'r grisiau, ceir pedair ystafell wely fawr ac un ystafell wely lai, ynghyd â dwy ystafell ymolchi ac ystafell gawod en-suite

Grwpiau a Sefydliadau Ardal Gweinidogaeth Eraill

- Y Banc Bwyd – Mae banc bwyd yr Eglwys Gadeiriol yn gweithredu o Dŷ Deiniol, y Swyddfa Esgobaethol sydd wedi'i lleoli ym mhen dwyreiniol yr Eglwys Gadeiriol, ac yn agored ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener.
- Undeb y Mamau – Mae cangen Bro Deiniol o Undeb y Mamau yn cwrdd yn fisol yn Eglwys y Groes.
- Tîm Stiwardio'r Eglwys Gadeiriol – Mae stiwardiaid y Gadeirlan yn gwirfoddoli i sicrhau bod ymwelwyr yn cael eu croesawu y rhan fwyaf o ddyddiau'r wythnos.
- Y Tîm Blodau – Mae gan yr Eglwys Gadeiriol dîm dawnus ac ymroddedig o drefnwyr blodau.

Deon yr Eglwys Gadeiriol ac Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol

Swydd Ddisgrifiad

Cydweithwyr Allweddol

- Esgob Bangor
- Tîm y Clerigwyr a'r staff lleig
- Cabidwl yr Eglwys Gadeiriol (Ymddiriedolwyr)
- Gwirfoddolwyr y Gadeirlan
- Staff Esgobaethol
- Deon Taleithiol
- Staff Taleithiol
- Swyddogion Dinesig
- Cyngor y Brifysgol

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Ardal yr Eglwys Gadeiriol a'r Weinidogaeth

- Mae'r Deon yn arwain addoliad, tystiolaeth, cenhadaeth, bywyd a' gweinidogaeth y Gadeirlan ac mae'n gyfrifol gyda'r Cabidwl (Ymddiriedolwyr) am lywodraethu a chynnal a chadw'r Eglwys Gadeiriol a'r Ardal Weinidogaeth.
- Mae'r Deon yn goruchwyllo, gyda'u cydweithwyr, fywyd bugeiliol yr Ardal Weinidogaeth.
- Gyda'r Cabidwl, mae'r Deon yn gyfrifol am drefnu a chynnal a chadw'r adeiladau, a chyllid yr Eglwys Gadeiriol ac yr Ardal Weinidogaeth.
- Maent yn arwain datblygiad ysbrydol, addysgol, diwylliannol a phererindod y safle hanesyddol hwn yn Ninas Bangor.

Yr Archddiaconiaeth/Synod

- Mae'r Archddiaconiaeth a'r Synod yn cynnwys 9 Ardal Weinidogaeth ac mae Bro Deiniol yn un ohonynt. Mae'r Deon fel Arweinydd Ardal Weinidogaeth Bro Deiniol yn gyfrifol am gynrychioli Bro Deiniol ar lefel y Synod.

Yr Esgobaeth

- Fel uwch offeiriad yn yr Esgobaeth, gyda'r Esgob a'u gydweithwyr, mae'r Deon yn rhannu goruchwyliaeth o genhadaeth yr eglwys , ac mae'n aelod o Dîm Staff yr Esgob, Cyngor yr Esgobaeth, a'r Gynhadledd Esgobaethol.
- Mae'r Deon yn sicrhau fod Ardaloedd Gweinidogaeth o amgylch yr Esgobaeth yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu i fywyd yr Eglwys Gadeiriol.

Y Dalaith

- Mae'r Deon yn chwarae rhan ym mywyd taleithiol yr Eglwys yng Nghymru. Byddant yn mynychu cyfarfodydd y Deon Taleithiol.
- Mae tri o Ddeoniaid Cymru yn aelodau o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.

Sgiliau, Doniau a Phrofiad

Cymeriad

- Person gwddigar, ymostyngedig, gyda sgiliau bugeiliol a rhyngpersonol cryf.
- Agwedd dosturiol, empathig a chynhwysol tuag at eraill.

Sgiliau a Phrofiad

- Pregethwr, athro a chyfathrebwr dawnus.
- Arweinydd a rheolwr profiadol, sy'n deall y gwahaniaeth rhyngddynt.
- Ymrwymiad amlwg i ragoriaeth yn y gweithle.
- Gweithiwr tîm greddfoll a chydweithredol.
- Profiad priodol o blwyf mawr, eglwys, Eglwys Gadeiriol, neu rôl eglwysig arwyddocaol.

Cymwysterau

- Mae'n gyfathrebwr rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn meddu ar gefndir cryf yn iaith, Diwylliant a Hanes y Gymraeg.
- Graddedig.
- Wedi bod yn Offeiriad am o leiaf chwe mlynedd.

Blaenoriaethau i Bro Deiniol ar gyfer y 5-7 mlynedd nesaf

- Ymateb i'r adroddiadau Ymweliadau Esgobol diwethaf, gan gydweithioâ'r Cabidwl a'r Esgobaeth i wreiddio argymhellion yr Adroddiadau
- Datblygu bywyd Bro Deiniol a gwneud y mwyaf o'i allgymorth a'i botensial efengylaidd
- Llunio a chyflawni prosiect cyfalaf sylweddol i adnewyddu ac adfywio'r adeilad a gofalu am y systemau gwresogi a goleuo.
- Datblygu addoli corawl a dwyieithog yr Eglwys Gadeiriol.
- Datblygu potensial pererindod Eglwys Gadeiriol Bangor.
- Llunio, gyda'r Cabidwl, drefniadau llywodraethu priodol ar gyfer yr Eglwys Gadeiriol ac eglwysi'r Ardal Weinidogaeth.
- Datblygu cysylltiadau a phartneriaethau cryf gyda'r Brifysgol, Dinas Bangor, ac awdurdodau dinesig eraill.

